

Strategaeth Gorfforaethol

2010-11 – 2012-13



Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2010-11 – 2012-13

Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Ffactorau Dylanwadol.....	3
Ein Gweledigaeth	6
Ein Cenhadaeth	7
Ein fframwaith strategol.....	8
Ehangu Mynediad	9
Profiad y Myfyrwyr.....	12
Sgiliau	15
Trosglwyddo Gwybodaeth.....	18
Ymchwil.....	20
Themâu Galluogi.....	22
Ailgyflunio a Chydweithio	22
Llywodraethu.....	24
Mesurau a Thargedau.....	27

Cyflwyniad

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol*¹, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009, yn gosod fframwaith clir ar gyfer datblygu addysg uwch yng Nghymru y byddwn yn gweithio o fewn iddo wrth roi'r Strategaeth Gorfforaethol hon ar waith. Ein prif nod yn ystod y cyfnod cynllunio fydd gwireddu'r weledigaeth yn *Er Mwyn Ein Dyfodol* ac mae strwythur ein Strategaeth Gorfforaethol wedi'i seilio ar ei themâu allweddol.

Fel yr eglurir yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, mae addysg uwch eisoes yn gwneud cyfraniad mawr at les cymdeithasol ac economaidd Cymru ac yn darparu buddion yn fwy eang yn y DU ac y tu hwnt. Ond mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn pwysleisio bod llawer mwy i'w wneud. Rydym yn cytuno, ac ychwanegwn fod y pwysau i wella perfformiad addysg uwch yn cael eu dwysáu gan y cyd-destun economaidd y bydd addysg a gyllidir yn gyhoeddus yn gweithredu o fewn iddo am rai blynyddoedd i ddod. Yn erbyn y cefndir hwn, bydd cryfhau ei chyfraniad at gyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog yn gryn her i addysg uwch yng Nghymru yn enwedig gan y bydd yn rhaid iddi, er mwyn cwrdd yn llawn ag anghenion Cymru, sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ymateb i ofynion lleol a'r angen i barhau'n gystadleuol ar y llwyfan rhyngwladol.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi i ni'r dasg o gyflawni *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Byddwn yn gweithio'n agos â darparwyr addysg uwch, ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill, i sicrhau bod dwy flaenoriaeth y strategaeth, cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog, yn ganolog i addysg uwch a gyllidir gan y llywodraeth yng Nghymru. Byddwn yn gweithio i ddatblygu cyfundrefn addysg uwch yng Nghymru lle y gall pawb elwa ar addysg uwch os oes ganddynt y gallu i wneud hynny, lle y mae profiad dysgu'r myfyrwyr o safon uchel, a lle y mae'r gradddedigion yn cael eu paratoi ar gyfer byd gwaith a'u rôl fel dinasyddion. Bydd cyfraniad addysg uwch i ddiwylliant Cymru yn cael ei gryfhau'n

1

wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/feandhe/forourfuture/?skip=1&lang=cy

fawr gan ddatblygiad sylweddol addysg cyfrwng Cymraeg yn sgil sefydlu'r Coleg Ffederal. Ein nod yw datblygu cyfundrefn addysg uwch sy'n sefydlu perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng darparwyr addysg uwch a chyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac mewn cymunedau lleol. Rydym hefyd yn bwriadu sicrhau gwell perfformiad ymchwil fel ei fod gyda'r gorau yn y byd ac yn cefnogi'n fwy effeithiol yr economi gwybodaeth ac adfywio diwylliannol a chymdeithasol. Drwy gyfrwng y strategaeth hon, bwriadwn leoli addysg uwch fel y gall wneud cyfraniad o bwys at Raglen Adnewyddu Economaidd ddatblygol Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig mewn perthynas â chynhyrchu a chyfnewid gwybodaeth a datblygu sgiliau lefel uwch yn y gweithlu Cymreig.

Y ddogfen hon yw ein Cynllun Gweithredu ar gyfer *Er Mwyn Ein Dyfodol* a fydd, gyda'n cynlluniau gweithredu blynyddol dros y cyfnod, yn cyflawni strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, fel y'i mesurir gan y targedau a gynhwysir yn y ddogfen ac a grynhwir yn Atodiad A. Ein nod yw darparu set o ddangosyddion lefel uchel a fydd gyda'i gilydd, er nad ydynt yn gynhwysfawr, yn rhoi amcan cyffredinol o sut y mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn cael ei chyflawni. Yn ogystal â'r mesurau hyn ar lefel y system, byddwn yn monitro ystod o fesurau ar lefel y sefydliad i sicrhau ein bod ni'n cael gwybod am unrhyw bryderon ynghylch cyflawni'r strategaeth mor gynnar â phosibl.

Ni fydd yn bosibl cyflawni hyn heb newid y ffordd y caiff addysg uwch ei gweinyddu a'i chyflwyno. Yn y strategaeth hon nodwn ein safbwynt ynghylch yr hyn y mae angen i'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod, pa dargedau penodol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gadw llygad ar gynnydd, a beth y mae'r amodau llwyddiant (gan gynnwys ystyriaethau strwythurol) yn debygol o fod. Byddwn yn raddol yn trosglwyddo cyllid i Gronfa Gweithredu Strategol newydd a fydd yn canolbwyntio ar gyflawni ein hamcanion craidd. Byddwn yn sefydlu trefn ranbarthol ar gyfer cyflwyno addysgu ac elfennau eraill a, lle y bo'n briodol, byddwn yn sefydlu cyllidebau i gefnogi'r datblygiadau hyn. Mae rôl staff yn y sector addysg uwch yn allweddol ac mae angen ei datblygu. Hefyd mae angen datblygu a gwella ansawdd llywodraethu a rheoli yn barhaus wrth i amgylchiadau newid.

Mae'r dull *system* newydd hon o edrych ar addysg uwch Gymreig yn her fawr i'r sector ac i ni. Wrth ddatblygu'r strategaeth newydd hon, rydym wedi adolygu'r

cynnydd a wnaed yn erbyn ein strategaeth flaenorol. Nodwn elfennau sydd wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus ac elfennau eraill lle nad yw'r cynnydd a wnaed mor glir. Yn fwyaf arbennig, mae newid strwythurol eang, a gwreiddio meddylfryd cydweithiol dwfn, yn parhau'n 'waith ar y gweill'. Ni fydd hi'n hawdd i ddarparwyr godi i'r her hon a chynnal darpariaeth yr un pryd o ystyried y cyd-destun ariannol anodd. Bydd sicrhau'r cynnydd a newid angenrheidiol, wrth gwrdd â'r ymrwymadau presennol yn llwyddiannus, hefyd yn her ddifrifol i ddarparwyr CCAUC. Wrth fynd i'r afael â'r sialensiau hyn, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru yn ardderchog a chynaliadwy ac yn cwrdd ag anghenion Cymru ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Gellir cael rhagor o wybodaeth am faint a natur y gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru yn yr adran *Ynghylch AU yng Nghymru* ar ein gwefan, www.hefcw.ac.uk.

Mae mynd i'r afael â'r sialensiau hyn yn gofyn i lywodraethwyr ac uwch reolwyr sicrhau bod eu sefydliadau mewn sefyllfa i gyflawni dros Gymru yn y tymor hir, a chofleidio a gwreiddio meddylfryd cydweithiol, gan gynnwys cyfuniadau lle y bo'n briodol. Nid yw hyn yn amser ar gyfer 'busnes fel arfer'.

Ffactorau Dylanwadol

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn diffinio'r ddwy flaenoriaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru fel cynyddu cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog. Cefnogwn y ddwy flaenoriaeth hyn yn llwyr. Serch hynny, rhaid i ni gydnabod eu bod yn dibynnu ar ei gilydd a gweithio gyda'r gyd-ddibyniaeth hon. Er mwyn i addysg uwch wneud y cyfraniad gorau posibl at flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru mae angen i ni weithio mewn ffordd gydlynol a chyd-atgyfnerthol.

Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu'r ffyrdd cymhleth y mae gweithgareddau addysg uwch yn cyfrannu'n wahanol at y ddwy flaenoriaeth. Mae ymchwil, er enghraifft, yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu economi bywiog drwy ymelwa ar wybodaeth. Ond rhaid cael economi cryf i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â ffynonellau mwy endemig anghydraddoldeb cymdeithasol. Gall addysg ar lefel uwch wella'r lefelau o sgiliau mewn cymdeithas, gan gynyddu cynhyrchedd economaidd, ond mae hefyd yn allweddol o ran paratoi pobl i chwarae

rhan lawn fel dinasyddion. Yn y modd hwn mae'n cyfrannu at welliannau yn ansawdd bywyd, gan gynnwys drwy ddarparu hyfforddiant meddygol ac iechyd.

Wrth fynd i'r afael â'r ddwy flaenoriaeth, cyfiawnder cymdeithasol ac economi bywiog, nodwn bum thema strategol allweddol, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at y ddwy. Hefyd nodwn ddwy thema alluogi y mae'n rhaid gweithredu arnynt mewn ffordd glir a phendant er mwyn sicrhau cymaint o gynnydd â phosibl gyda'r pum thema strategol. Ym mhob un o'r rhain cydnabyddwn yr angen am ragoriaeth ryngwladol mewn addysg uwch yng Nghymru.

Y pum thema allweddol yw: Ehangu Mynediad, Profiad y Myfyrwyr, Sgiliau, Trosglwyddo Gwybodaeth, ac Ymchwil. Bydd cynnydd gyda phob un yn gofyn am ragor o waith ym meysydd Ailgyflunio a Chydweithio a Llywodraethu.

Bydd y strategaeth hon yn cael ei gweithredu mewn cyd-destun economaidd heriol. Beth bynnag y bydd penderfyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol ar gyllidebau addysg uwch, gan gynnwys cyfyngiadau posibl ar niferoedd o fyfyrwyr, bydd pwysau mewn rhannau eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn debygol o leihau'r adnoddau sydd ar gael i'r sector yn ystod oes y strategaeth hon. Bydd newid demograffig hefyd yn cael effaith sylweddol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'n hadnoddau gael eu canolbwyntio fwy ar flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru: bydd angen gwneud defnydd mwy strategol o gyllid craidd, drwy ein Cronfa Gweithredu Strategol newydd. Bydd yn rhaid i sefydliadau fod yn fwy effeithiol fyth wrth geisio ffrydiau incwm ychwanegol, gan gynnwys rhai o wledydd tramor. Er mwyn cwrdd ag anghenion Cymru, bydd angen iddynt lwyddo yn wyneb cystadleuaeth ryngwladol gynyddol am fyfyrwyr, staff a chyllid, yn enwedig contractau ymchwil. Nodwn hefyd fod cyd-ddibyniaeth rhwng y gallu i ennill y ffrydiau incwm ychwanegol hyn a'r defnydd a wneir o'n cyllid craidd.

Er mwyn i'r sector ddangos rhagoriaeth a bod yn gystadleuol ar y llwyfan rhyngwladol, bydd yn parhau'n bwysig i sefydliadau addysg uwch (SAUau) fanteisio ar gyfleoedd rhyngwladol, dangos yr hyn y gallant ei gyfrannu at yr agendâu ehangach hyn, a chymhwyso'r gwersi a ddysgant yn ôl yng Nghymru.

Wrth lunio'r strategaeth hon, rydym wedi ystyried i ba raddau y mae nodau ein strategaeth flaenorol wedi cael eu bodloni. Byddwn yn darparu dadansoddiad llawn o'r cynnydd a wnaed ar ein gwefan. Fel y gellid disgwyl, o ystyried yr ystod eang o dargedau, bu cynnydd yn gymysg. Mae angen i ni nodi hefyd fod cyfyngiadau data'n golygu ein bod ni'n asesu cynnydd tuag at dargedau *Ymgeisio'n Uwch* ar gyfer 2010 rai blynyddoedd cyn y bydd unrhyw ddata ar gyfer 2010 ar gael. Ond at ei gilydd mae'r sector wedi llwyddo i gynnal ei gadernid ariannol ac ni fu llawer o bryderon am lywodraethu yn ystod y cyfnod dan sylw. Bu perfformiad y sector ym maes ehangu mynediad yn dda, a hefyd ansawdd profiad y myfyrwyr, er bod angen gwella cyfraddau cadw. Er bod rhai pryderon o hyd, mae perfformiad ymchwil yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) yn parhau'n dda at ei gilydd o'i gymharu â gweddill y DU. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu, a hefyd nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu recriwtio. Hefyd bu cyfraniad economaidd uniongyrchol y sector yn dda o'i gymharu â'r normau ar gyfer y DU.

Ond nid oes lle i laesu dwylo. Mae angen gwelliannau pellach yn yr holl feysydd hyn er mwyn cyflawni *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Mae'r angen hwn yn fwyaf clir mewn perthynas ag ymchwil: nid yw Cymru'n sicrhau ei chyfran briodol o incwm o'r Cynghorau Ymchwil ac mae ganddi ormod o dimau ymchwil sy'n rhy fach ac yn rhy gyfyng eu cwmpas. Mae gormod o'n prifysgolion yn fach yn ôl safonau'r DU ac mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch cystadleurwydd a chynaliadwyedd².

Dros gyfnod y Strategaeth hon byddwn yn cyflwyno ac yn graddol weithredu ein Cronfa Gweithredu Strategol. Bydd hyn yn sail i'n defnydd strategol o gyllid craidd, gan gynnwys y dimensiwn rhanbarthol.

Yn erbyn cyd-destun polisi *Er Mwyn Ein Dyfodol* a'r sefyllfa economaidd a demograffig bresennol, ac ar sail dadansoddiad o gynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym yn cyflwyno isod ein strategaeth lefel uchel ar gyfer CCAUC, ac ar gyfer addysg uwch, yn y tymor canolig. Ategir y strategaeth hon gan gynlluniau gweithredol blynyddol manylach.

² www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Collaboration_between_HE_institutions_Eng.pdf

Ein Gweledigaeth

Rydym yn dymuno datblygu a chynnal addysg uwch o safon rhyngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Credwn fod gormod o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i ni allu gweithredu yn y modd mwyaf effeithiol posibl yn y byd sydd ohoni. Pe baem ni'n cynllunio cyfundrefn addysg uwch ar gyfer Cymru heddiw, mae'n debyg y byddai'n dra gwahanol i'r sefyllfa bresennol. Mae'r rhan fwyaf o'n sefydliadau AU o dan ganolrif y DU yn nhermau incwm, ac mae hyn yn effeithio ar eu gallu i fentro, i wrthsefyll ergydion, ac i barhau'n arloesol yn y tymor hir.

Dymunwn hefyd weld mwy o gydweithio rhwng darparwyr, a meddylfryd o gydweithio wedi'i wreiddio'n ddwfn ar draws y sector a chyda darparwyr eraill, er mwyn adeiladu màs critigol, rhannu gwasanaethau a gwella cynhyrchu incwm.

Mewn nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft, awgrymwyd bod angen bod yn fwy radical wrth fuddsoddi yng nghryfderau'r sector a'i bod hi'n bwysig cael llawer llai o sefydliadau addysg uwch, a'r rheiny â phresenoldeb cryf ar y llwyfan rhyngwladol. Rydym yn cytuno â'r ymatebion hyn.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, rydym am weld:

- Datblygu cyfundrefn addysg uwch yng Nghymru lle y mae prifysgolion a cholegau addysg bellach yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gyfannol;
- Darpariaeth wedi'i threfnu'n fwy cydlynol ym mhob rhanbarth o Gymru, er lles dysgwyr a chyflogwyr lleol;
- Perfformiad ymchwil sy'n cyrraedd safonau rhagoriaeth rhyngwladol, wedi'i drefnu o fewn a rhwng sefydliadau mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy ac sydd wedi'u cysylltu'n gryf â defnyddwyr a buddiolwyr eraill;
- Llawer llai o sefydliadau;
- Dealltwriaeth glir o sut y mae pob sefydliad yn cyfrannu at y gyfundrefn yn ei chyfanrwydd, yn unigol a thrwy gydweithio, ar raddfa ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol;
- Cynaliadwyedd ariannol pob sefydliad yn y tymor canolig.

Ein Cenhadaeth


Defnyddiwn gyllid a dderbyniwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill yn strategol i:

- *sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;*
- *cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru;*
- *sicrhau hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.*

Er mwyn

- *Cynyddu cyfiawnder cymdeithasol;*
- *Cefnogi economi bywiog.*

Ein fframwaith strategol



Themâu Strategol Allweddol

Ehangu Mynediad

Sicrhau tegwch, cyfle a llwyddiant mewn addysg uwch.

Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cyfiawnder cymdeithasol. Mae gan addysg uwch gyfraniad pwysig i'w wneud at y nod hwn yn nhermau ehangu mynediad. Mae'r sector Cymreig yn parhau i wneud yn dda yn erbyn dangosyddion perfformiad y DU yn y maes hwn ond rydym yn awyddus i weld gwelliannau pellach, wedi'u gwreiddio'n ddyfnach o fewn fframwaith ehangach Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer dysgu gydol oes, gan gynnwys yr agenda trawsnewid. Yn ystod cyfnod y strategaeth hon byddwn yn ailffocysu ein hymagwedd at ehangu mynediad, gan gynnwys y Cynllun Ymggyrhaedd yn Ehangach. Byddwn yn hybu ymagweddau strategol at ehangu mynediad i bob oedran drwy ein trefniadau cyllido diwygiedig, gan gynnwys drwy daliadau premiwm. Byddwn yn annog darparwyr addysg uwch i wella'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys casglu data, i'w helpu i lunio eu strategaethau ac i ddangos effeithiau a llwyddiant eu gweithgareddau. Canolbwyntir yn arbennig ar ddarpariaeth ran-amser (gan gynnwys ymagweddau arloesol at ddysgu hyblyg a dysgu yn-y-gwaith), ar fynediad teg, gan gynnwys mynediad i'r proffesiynau, ac ar gadw myfyrwyr – a rhoddir pwyslais ar helpu myfyrwyr i gwblhau eu hamcanion dysgu'n llwyddiannus. Byddwn hefyd yn cysylltu ein pwyslais ar gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol â rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau o ran mynediad a chyfle i bobl sy'n byw yn ardaloedd amddifadiad lluosol Cymru.

Elfen newydd sylfaenol yn y strategaeth gorfforaethol hon yw ei bod hi'n gofyn am ymagwedd ranbarthol at gynllunio a chyflwyno addysg uwch. Bydd hyn yn sicrhau gwell dilyniant i addysg uwch a thrwyddi erbyn diwedd cyfnod y strategaeth. Bydd yn gofyn am weithio mewn partneriaethau cryf, gan gynnwys gydag Addysg Bellach a darparwyr ôl-16 eraill. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi Athrofa Blaenau'r Cymoedd y Prifysgolion ac ymagweddau rhanbarthol presennol eraill at ehangu mynediad. Byddwn yn adolygu strwythurau ein partneriaethau Ymggyrhaedd yn Ehangach fel eu bod yn cyd-fynd yn nes â'n hymagwedd ranbarthol. Byddwn yn

gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i resymoli'r trefniadau ar gyfer bwrsariau myfyrwyr, gan gynnwys drwy drefniadau'r cynllun ffioedd.

Ym maes Ehangu Mynediad byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodo:*³

- Cynyddu cyfranogiad i'r eithaf drwy ffyrdd gwahanol a mwy hyblyg o ddilyn addysg uwch, gan gynnwys astudiaeth ran-amser
- Rhoi sylw i anghysondebau o ran mynediad a chyfle
- Ailffocysu ein dulliau o ehangu mynediad i addysg uwch.

Canlyniadau:

Mesur gwell mynediad a dilyniant i bobl mewn lleoliadau lle y mae cyfleoedd o'r fath y brin, gan gynnwys Blaenau'r Cymoedd:

- 1. Cynnydd o 10% yng nghyfran y myfyrwyr sy'n dod o Gymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n byw yn Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru, o 15.6% yn 2008/09 i 17.2% yn 2012/13.**

Mesur y cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau eu hamcanion dysgu'n llwyddiannus:

- 2. Cynnydd o 2.7% yn y gyfradd cwblhau modiwlau ar gyfer cofrestrïadau israddedig yn sefydliadau addysg uwch Cymru, o 87.6% yn 2008/09 i 90% yn 2012/13.**

³ Mae'r holl ddisgwyliadau *Er Mwyn Ein Dyfodol* a restrir o dan bob Thema Strategol wedi'u seilio ar y disgwyliadau a roddir mewn teip trwm yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, neu, mewn tri achos, fe ddyfynnwyd o'r testun.

Byddwn hefyd yn monitro perfformiad y sector yn erbyn dangosyddion ehangu mynediad eraill, gan gynnwys recriwtio myfyrwyr anabl; recriwtio myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig; proffil oedran; ymadawyr gofal; dosbarth economaidd gymdeithasol; cyfranogiad gan ddynion; a dangosyddion perfformiad perthnasol eraill y DU.

Profiad y Myfyrwyr

Sicrhau bod profiad y myfyrwyr o ansawdd uchel.

Mae addysg uwch yng Nghymru eisoes yn cynnig profiad ardderchog i fyfyrwyr. Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn nodi bod lefelau o fodlonrwydd yn uchel⁴. Cafwyd lefelau o fodlonrwydd yr un mor uchel mewn arolygon o brofiadau myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru. Dengys y canlyniadau hyn y flaenoriaeth a roddir yng Nghymru i ansawdd y profiad a gynnigir i fyfyrwyr. Maent hwy hefyd yn adlewyrchu'r cydweithio agos gyda myfyrwyr fel partneriaid yn eu profiad dysgu. Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn rhoi pwyslais arbennig ar roi llais i fyfyrwyr. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, ac eraill, drwy Fenter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (WISE) a thrwy gefnogi'r ymgyrch 'Dweud Eich Dweud'. Drwy ein dulliau gwella ansawdd, byddwn yn annog sefydliadau i wella profiad eu myfyrwyr yn barhaus, gan gynnwys drwy'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a thrwy gefnogi asiantaethau yn y sector sy'n gallu cynnig dulliau o weithio gyda'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru ar raddfa'r DU gyfan. I gyflawni hyn, byddwn yn gweithredu ein mecanweithiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer cefnogi gwella cyfleoedd dysgu⁵. Byddwn hefyd yn gwerthuso ein strategaeth Dysgu wedi'i Wella gan Dechnoleg⁶ i adlewyrchu ffurfiau newydd ac arloesol ar ddysgu ac yn parhau i gefnogi Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang drwy rwydweithiau sector.

Yn ystod cyfnod y strategaeth byddwn yn gweithio i sefydlu'r Coleg Ffederal i wella hyd a lled darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn cefnogi strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn cyfrannu'n effeithiol at y broses Bologna a datblygiadau Ewropeaidd cysylltiedig, gan gynnwys drwy Addysg Uwch Cymru Brwsel. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r darparwyr i'w hannog i wneud eu darpariaeth yn fwy hyblyg drwy gyflwyno rhaglenni

⁴ unistats.direct.gov.uk/

⁵

www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2010/W10%2002HE%20Mechanisms%20for%20Supporting%20the%20Enhancement%20of%20Learning%20Opportunities.pdf

⁶ www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2008/W08%2012HE%20circ.pdf

arloesol a dulliau modiwlaid, gan adeiladu ar fanteision presennol Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) a'n dull cyllido credyd-seiliedig. Byddwn yn parhau i gwrdd â'n dyletswyddau statudol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon.

O ran Profiad y Myfyrwyr, byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Parheir â'r ymdrechion i gynnig profiad ardderchog i fyfyrwyr
- Ei gwneud hi'n bosibl i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth ehangach o raglenni a lleoliadau yng Nghymru
- Sicrhau bod addysg uwch yn cael ei chryfhau gan lais y myfyrwyr.

Canlyniadau:

Mesur 'parhau â'r ymdrechion i gynnig profiad ardderchog i fyfyrwyr' a sicrhau bod 'addysg uwch yn cael ei chryfhau gan lais y myfyrwyr':

- 3. Bydd y sgôr gyfartalog dreigl dair blynedd ar gyfer Cymru yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol' yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn hafal i, neu'n fwy na'r sgôr gymharol ar gyfer y DU.**

Mesur 'astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth ehangach o raglenni a lleoliadau yng Nghymru':

- 4. Bydd nifer y myfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi o 4,667 yn 2008/09 i 5600 yn 2012/13.**

Mesur rhyngwladoli addysg uwch yng Nghymru, drwy barhau i weld Cymru'n gwneud yn well na'r symudiad DU-eang mewn recriwtio myfyrwyr tramor:

- 5. Y twf canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru i fod yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cyfartalog ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys Llundain a De-Ddwyrain Lloegr).**

Byddwn hefyd yn monitro perfformiad y sefydliadau mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys drwy ganlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ac Adolygiad Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Sgiliau

Sicrhau bod pawb sy'n graddio yn barod am fyd gwaith a'u rôl fel dinasyddion.

Nododd yr adroddiad ar yr *Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru* (adolygiad Jones), a gyhoeddwyd yn 2009, fod gan rai ardaloedd yng Nghymru 'lefelau o sgiliau sy'n llawer is na'r cyfartaledd a llai o gyfleoedd lleol i gyrchu addysg uwch'. Yn ystod cyfnod y strategaeth hon rydym yn awyddus i weld cynnydd mewn lefelau o sgiliau ar hyd a lled Cymru ar lefel 4 ac uwch Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW), a chydweithio nes rhwng darparwyr addysg uwch a chyflogwyr i ddarparu'r sgiliau lefel uwch sydd eu hangen ar fusnes, gan gynnwys i'r sawl sydd eisoes mewn gwaith. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod datblygu darpariaeth i hybu medrau entrepreneuriaidd yn parhau, mewn partneriaeth ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

I'r perwyl hwn, byddwn yn cefnogi cyflwyno *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, gan weithio gyda'r sector, Cynghorau Sgiliau Sector a chyflogwyr. Drwy ein prif fenter i wella cyflogadwyedd, GO Wales, byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau addysg uwch i gynnig lleoliadau i raddedigion ac i ehangu ein rhaglenni newydd, sef yr Academi Graddedigion a Gweithio Ar Eich Liwt Eich Hun. Byddwn hefyd yn annog mwy o ddysgu yn-y-gwaith ar y lefel addysg uwch a chyfleoedd pellach ar gyfer lleoliadau gwaith, ochr yn ochr â chynghor ac arweiniad gyrfaoedd mwy sefydledig. Bydd hyn yn cynnwys hybu rhaglenni mwy amrywiol a hyblyg i gyd-fynd ag angen a galw, gan gynnwys drwy wneud mwy o ddefnydd o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ac achredu dysgu-drwy-brofiad blaenorol. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaeth ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM), gan adeiladu ar ein partneriaeth gyda HEFCE (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr) a'i Rhaglen STEM. O fewn strategaeth *Gwneud i leithoedd Gyfrif* Llywodraeth y Cynulliad, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd calonogol cynnar a wnaed i hybu leithoedd Tramor Modern.

Un cyfrwng allweddol ar gyfer cyflawni ein hamcanion fydd y Radd Sylfaen. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i ni ddatblygu polisi newydd ar Raddau

Sylfaen, a byddwn yn bwrw ymlaen â hyn ochr yn ochr â darpariaeth gradd sylfaen newydd y sector sy'n cael ei hariannu gan Ewrop, a datblygiadau cysylltiedig yn Athrofa Blaenau'r Cymoedd y Prifysgolion, gan gynnwys mewn sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach. Bydd graddau sylfaen yn rhan allweddol o'n hymagwedd ranbarthol.

Ym maes Sgiliau byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Mae cyfran uwch o'r boblogaeth yn dysgu sgiliau lefel uwch
- Datblygu mwy o amrywiaeth a hyblygrwydd yng nghynllun, hyd a dulliau cyflwyno rhaglenni i gyd-fynd ag angen a galw
- Cynigir cyfleoedd dysgu rhan-amser gwell
- Mae cyflogadwyedd yn un o brif ganlyniadau'r profiad addysg uwch
- Cryfhau cyfraniad addysg uwch at ddatblygu'r gweithlu.

Canlyniadau:

Mesur 'mae cyflogadwyedd yn un o brif ganlyniadau'r profiad addysg uwch':

- 6. Bydd y gyfran o raddedigion sy'n gadael addysg uwch gyda graddau cyntaf o gyrsiau amser-llawn ac sydd mewn gwaith, yn astudio, neu'r ddau chwe mis ar ôl gadael, yn hafal i, neu'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU erbyn 2012/13.**

Mesur i ba raddau y mae mwy o bobl yng Nghymru, gan gynnwys ym Mlaenau'r Cymoedd, yn cael profiad o addysg uwch ac yn 'dysgu sgiliau lefel uwch':

- 7. Erbyn 2012/13 bydd cynnydd o 8% i'r cyfartaledd cenedlaethol presennol yng nghyfradd cyfranogiad absoliwt myfyrwyr o bum awdurdod unedol Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru (o 2.5% i 2.7%).**

Mesur i ba raddau y mae 'cyfleoedd dysgu rhan-amser gwell' yn cael eu cynnig:

- 8. Bydd cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn codi o 54,714 yn 2008/09 i 59,000 yn 2012/13.**

Byddwn hefyd yn monitro cyflawni cymwysterau (credyd) ar lefel 4 ac uwch; cyfran y gweithlu sydd â chymwysterau ar lefel 4 ac uwch; recriwtio i STEM ac ieithoedd tramor modern; gyrchfannau myfyrwyr sy'n gadael addysg uwch; yr arolwg arhydol o gyrchfannau myfyrwyr sy'n gadael addysg uwch; a dangosyddion perfformiad perthnasol y DU.

Trosglwyddo Gwybodaeth

Sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, cymunedau lleol ac asiantaethau eraill.

Mae sefydliadau addysg uwch eisoes yn chwarae rhan allweddol mewn cefnogi datblygu economaidd yng Nghymru. Serch hynny, mae angen gwneud mwy i gwrdd ag anghenion cyflogwyr a sicrhau y gall y wybodaeth a ddatblygir mewn addysg uwch gael ei gwneud yn hygyrch fel y gall y gymuned fusnes ei datblygu.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith gyda'r sector, ochr yn ochr â gweithgareddau a arweinir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau cydweithio nes â busnes a chynyddu masnacheiddio ymchwil. Byddwn yn cefnogi datblygu porth mwy effeithiol i wasanaethau addysg uwch a anelir at gyflogwyr. Byddwn hefyd yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch ar sail ranbarthol i ddatblygu eu cysylltiadau â chyflogwyr a'u rolau diwylliannol a dinesig.

Ym maes Trosglwyddo Gwybodaeth byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Cefnogir yr economi drwy gryfhau ymelwa systematig ar wybodaeth
- Caiff rôl ddiwylliannol a dinesig addysg uwch ei chryfhau.

Canlyniadau:

Cael tystiolaeth o drosglwyddo gwybodaeth ac ymelwa ar eiddo deallusol mewn ffyrdd a all helpu i weddnewid economi Cymru:

- 9. Bydd cynnydd o 10% yn nifer y cwmnïau deilliadol gweithredol sydd wedi goroesi am dair blynedd o leiaf, o 252 yn 2008/09 i 277 yn 2012/13.**

Byddwn hefyd yn monitro dangosyddion o'r Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch â Busnes a'r Gymuned (HEBCIS), gan gynnwys mesurau ymchwil ar y cyd; ymchwil dan gontract; ymgynghori; gwasanaethau'n ymwneud â chyfleusterau a chyfarpar nas darperir gan SAUau; cyrsiau ar gyfer busnes a'r gymuned (Addysg Barhaus a Datblygiad Proffesiynol Parhaus); rhaglenni adfywio a datblygu; incwm yn gysylltiedig ag Eiddo Deallusol; trwyddedau ac incwm cysylltiedig; gweithgarwch cwmnïau deilliedig a'r incwm ohonynt; a chanlyniadau monitro GO Wales.

Ymchwil

Sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol.

Yn ystod cyfnod y cynllun ein prif nod fydd sicrhau ymchwil rhagorol cynaliadwy yn y sector addysg uwch yng Nghymru drwy gryfhau ansawdd a maint y sylfaen ymchwil. Byddwn yn dyrannu cyllid yn unol â hyn. Bydd hyn yn golygu cyfnerthu cyllid a chymorth mewn prifysgolion cryf sy'n weithgar iawn ym maes ymchwil, a hybu cydfentrau ymchwil a fydd yn gwneud cyllid y Cynghorau Ymchwil a chyllid o ffynonellau allanol eraill yn fwy hygyrch, a rhoddir pwyslais arbennig ar bedwar maes blaenoriaethol Llywodraeth y Cynulliad: yr economi digidol, yr economi carbon isel (gan gynnwys materion lliniaru/addasu i newid yn yr hinsawdd), iechyd a'r biowyddorau, a pheirianeg a gweithgynhyrchu uwch.

Byddwn yn darparu mwy o gymorth strategol ar gyfer ymchwil ôl-radd ac yn ceisio cynyddu maint y gymuned o ôl-raddedigion yng Nghymru, gan gydnabod pwysigrwydd ôl-raddedigion i ddyfodol economi Cymru. Byddwn yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch fabwysiadu ymagwedd fwyfwy strategol at reoli ymchwil, yn enwedig wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, a datblygu agendâu ymchwil ar y cyd â darpar ddefnyddwyr.

Wrth ymgymryd â'r holl waith hwn, byddwn hefyd yn cydnabod rôl ymchwil mewn amrywiaeth eang o feysydd lle yr hybir cyfiawnder cymdeithasol ac adnewyddu diwylliannol a chymdeithasol.

Ym maes Ymchwil, byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Mae gweithgaredd ymchwil yn ffynnu ac yn effeithiol
- Cynyddu effaith ymchwil prifysgol, drwy dargedu cymorth at gryfderau ymchwil a blaenoriaethau cenedlaethol, a hybu cydweithio

Canlyniadau:

Annog ymchwil mwy effeithiol drwy ganolbwyntio buddsoddiad ar feysydd o gryfder:

- 10. Bydd y twf canrannol blynyddol mewn incwm o'r Cynghorau Ymchwil, o'i fan cychwyn yn 2008/09 o 4.8% o'r cyfanswm ar gyfer y DU, yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys y 'triongl euraid', sef Rhydychen, Caergrawnt a Llundain).**

Byddwn hefyd yn monitro niferoedd o Fyfirwyr Ymchwil Ôl-radd; incwm ymchwil o ffynonellau heblaw am y Cynghorau Ymchwil; a'r swm o arian ymchwil cyhoeddus a enillir fel cyfran o gyllid QR (ymchwil o ansawdd) CCAUC a ddyrennir, yn erbyn cymaryddion y DU.

Themâu Galluogi

Ailgyflunio a Chydweithio

Cynhyrchu cyfundrefn addysg uwch ailgyfluniedig gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn rhanbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch.

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn disgwyl newid mawr ym mherfformiad addysg uwch yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu dimensiwn rhanbarthol i gyflwyno darpariaeth. Byddwn yn ceisio strategaethau rhanbarthol gan ddarparwyr addysg uwch, gan weithio gyda darparwyr a chyflogwyr lleol, i sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn cael eu hadnabod a'u bodloni'n well.

Yn y ddogfen hon rydym wedi rhoi ein barn ar yr hyn y mae angen i'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod, pa dargedau penodol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gadw llygad ar gynnydd, a beth y mae'r amodau llwyddiant yn debygol o fod.

- Bydd gwreiddio meddylfryd cydweithiol, gan weithio gyda'n gilydd yn fwy cynhyrchiol a dileu cystadleuaeth ddiangen, yn hanfodol i sicrhau bod y gyfundrefn addysg uwch yn parhau'n gynaliadwy mewn cyd-destun rhyngwladol hynod o gystadleuol.
- Yn gyffredinol, credwn fod gormod o'n prifysgolion yn rhy fach yn ôl safonau'r DU, a bod gennym ormod o sefydliadau, a bod hyn yn codi cwestiynau ynghylch cystadleurwydd a chynaliadwyedd. Nid yw cydweithio ar ei ben ei hun yn debygol o fod yn ymateb digonol.
- Byddwn yn adolygu ein methodolegau cyllido i sicrhau eu bod yn cefnogi blaenoriaethau *Er Mwyn Ein Dyfodol*, gan gynnwys cyflwyno Cronfa Gweithredu Strategol a dull newydd o ddyrannu cyllid cyfalaf.

Yn nhermau Ailgyflunio a Chydweithio byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch
- Mwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg uwch a rhwng darparwyr addysg uwch a darparwyr eraill.

Canlyniadau:

Pwrpas: Hybu ailgyflunio pellach yn y sector addysg uwch, gan gynnwys 'cyfuno sefydliadau a chydweithio rhwng sefydliadau lle y bydd hyn yn cynyddu cryfder, gallu ac argaeledd addysg uwch o ansawdd uchel'.

- 11. Bydd gan o leiaf 75% o sefydliadau addysg uwch incwm blynyddol sy'n fwy na'r canolrif ar gyfer y DU (36% yn 2008/09), ac ni fydd unrhyw sefydliad yn y chwarter isaf erbyn 2012/13 (4 yn 2008/09).**

Llywodraethu

Sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd llywodraethu a chynaliadwyedd tymor hir y gyfundrefn addysg uwch.

Cydnabyddwn rôl hanfodol llywodraethwyr o ran pennu cyfeiriad strategol sefydliadau annibynnol a dal timau gweithredol yn gyfrifol am berfformiad sefydliadol. Mae gofyn i gyrff llywodraethu gynorthwyo timau gweithredol i symud y tu hwnt i gyfyngiadau strwythurau ac arferion hanesyddol presennol y sector ac ystyried y gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfanrwydd i benderfynu sut y gall gwrdd orau ag anghenion Cymru, yn ogystal â chymryd i ystyriaeth ffactorau'r DU a rhyngwladol sy'n effeithio ar eu gwaith.

Byddwn yn parhau i symud ymlaen â'n proses ymgysylltu strategol newydd â sefydliadau addysg uwch, ac un o nodau hon yw cryfhau llywodraethu ar draws y sector. Wrth wneud hyn, byddwn yn parhau i annog datblygiadau yn unol â *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn darparu cyllid i hybu ymdrechion cydweithiol sefydliadau i wella arweinyddiaeth a rheolaeth, gan ddysgu oddi wrth arfer y DU. Yn ystod cyfnod y strategaeth, byddwn yn cyfrannu at ganlyniadau'r adolygiad o lywodraethu mewn addysg uwch a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Mawrth 2010, gyda'r nod o adeiladu ar arfer da presennol, canfod anghenion datblygu heddiw ac yn y dyfodol, a hybu neu annog rhaglenni datblygu a fframweithiau cymorth newydd.

Ym maes Llywodraethu byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Hybu rôl darparwyr addysg uwch fel Dinasyddion Corfforaethol
- Adolygu llywodraethu sefydliadol mewn addysg uwch.

Canlyniadau:

Annog gwella effeithiolrwydd cyrff llywodraethu wrth iddynt lywio cyfeiriad strategol eu sefydliadau.

12. Ni fydd unrhyw sefydliad addysg uwch yn cael ei ddsbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.

Byddwn hefyd yn monitro mesurau cynaliadwyedd; Ystadegau Rheolaeth Ystâd; a rheolaeth carbon.

CCAUC fel corff

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw CCAUC. Mae ganddo gyfrifoldebau statudol i weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch, a rhai cyrsiau addysg uwch a ddarperir mewn colegau addysg bellach. Rydym hefyd yn achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Mae gennym gyfrifoldebau statudol hefyd mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys perfformiad yn y sector addysg uwch, rhyddid gwybodaeth a gwarchod data.

Ni allwn gyflawni ein hamcanion polisi a darparu gwasanaeth effeithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, y gyfundrefn addysg uwch a rhanddeiliaid eraill heb ddarparu amgylchedd y gall ein staff wireddu eu potensial llawn ynddo.

Dibynnwn ar bedwar prif fecanwaith ar gyfer asesu i ba raddau yr ydym wedi cwrdd â'n hamcanion:

- Adolygiadau perfformiad a monitro perfformiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- Buddsoddwyr mewn Pobl;
- Arolygon Rhanddeiliaid;
- Arolygon Staff.

Yn ystod cyfnod y strategaeth hon byddwn yn cynnal arolwg pellach i gael barn rhanddeiliaid, gan adeiladu ar ganlyniadau'r arolwg cyntaf a gynhaliwyd yn 2007-08, a byddwn yn ymateb i Adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Lywodraethu yn CCAUC a gynhaliwyd yn 2009-10.

Mesurau a Thargedau

1. Cynnydd o 10% yng nghyfran y myfyrwyr sy'n dod o Gymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n byw yn Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru, o 15.6% yn 2008/09 i 17.2% yn 2012/13.
2. Cynnydd o 2.7% yn y gyfradd cwblhau modiwlau ar gyfer cofrestrïadau israddedig yn sefydliadau addysg uwch Cymru, o 87.6% yn 2008/09 i 90% yn 2012/13.
3. Bydd y sgôr gyfartalog dreigl dair blynedd ar gyfer Cymru yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol' yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn hafal i, neu'n fwy na'r sgôr gymharol ar gyfer y DU.
4. Bydd nifer y myfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi o 4,667 yn 2008/09 i 5600 yn 2012/13.
5. Y twf canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru i fod yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cyfartalog ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys Llundain a De-Ddwyrain Lloegr).
6. Bydd y gyfran o raddedigion sy'n gadael addysg uwch gyda graddau cyntaf o gyrsiau amser-llawn ac sydd mewn gwaith, yn astudio, neu'r ddau chwe mis ar ôl gadael, yn hafal i, neu'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU erbyn 2012/13.
7. Erbyn 2012/13 bydd cynnydd o 8% i'r cyfartaledd cenedlaethol presennol yng nghyfradd cyfranogiad absoliwt myfyrwyr o bum awdurdod unedol Athrofa

Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru (o 2.5% i 2.7%).

8. Bydd cyfanswm y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn codi o 54,714 yn 2008/09 i 59,000 yn 2012/13.
9. Bydd cynnydd o 10% yn nifer y cwmnïau deilliadol gweithredol sydd wedi goroesi am dair blynedd o leiaf, o 252 yn 2008/09 i 277 yn 2012/13.
10. Bydd y twf canrannol blynyddol mewn incwm o'r Cynghorau Ymchwil, o'i fan cychwyn yn 2008/09 o 4.8% o'r cyfanswm ar gyfer y DU, yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymaradwy ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (heb gynnwys y 'triogel euraid', sef Rhydychen, Caergrawnt a Llundain).
11. Bydd gan o leiaf 75% o sefydliadau addysg uwch incwm blynyddol sy'n fwy na'r canolrif ar gyfer y DU, (36% yn 2008/09), ac ni fydd unrhyw sefydliad yn y chwarter isaf erbyn 2012/13 (4 yn 2008/09).
12. Ni fydd unrhyw sefydliad addysg uwch yn cael ei ddsbarthu'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC.